# PWYLLGOR PENODI PRIF SWYDDOGION
# DYDD IAU, 12 MAWRTH 2026

**Presenoldeb:** Cyng Ioan Thomas (Cadeirydd)
Cyng Medwyn Hughes (Is-gadeirydd)

**Cynghorwyr:** Elwyn Jones, June Jones, Anne Lloyd-Jones, Nia Jeffreys, Beth Lawton, Cai Larsen, ac Angela Russell

**Swyddogion:** Dylan Owen (Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol), Catrin Thomas (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Eleri Jones (Rheolwr Gwasanaethau Ymgynghorol Adnoddau Dynol), a Lowri Haf Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth)

## 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Wendy Cleaver, Annwen Hughes, Dafydd Meurig, Gwynfor Owen, Dyfrig Siencyn a Menna Trenholme, a Dafydd Gibbard (Prif Weithredwr)

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

## 3. MATERION BRYS

Dim i'w nodi

## 4. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar y 11eg o Chwefror 2026 fel rhai cywir

## 5. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

**PENDERFYNWYD cau'r wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraff 12, Rhan 4, Atodiad 12A, Deddf Llywodraeth Leol 1972. Mae'r paragraff yma yn berthnasol oherwydd bod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth am unigolion penodol sydd â hawl i breifatrwydd. Nid oes unrhyw fudd cyhoeddus sydd yn galw am ddatgelu gwybodaeth bersonol am yr unigolion yma. O ganlyniad mae'r budd cyhoeddus yn disgyn o blaid cadw'r wybodaeth yn eithriedig.**

## 6. TYNNU RHESTR FER AR GYFER PENNAETH ADRAN PLANT A CHEFNOGI TEULUOEDD (DROS DRO)

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol grynodeb byr

o'r rhesymeg dros yr hysbysebiad a chyfrifoldebau'r swydd. Amlygodd bod y trefniadau presennol, o lenwi'r bwlch yn absenoldeb Pennaeth yr Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd yn anghynaladwy a bod angen Pennaeth cyfrifol ac atebol i arwain; Gyda phenodiad Pennaeth dros dro, bydd hyn yn caniatáu ôl lenwi swyddi gwag eraill o fewn yr Adran a sefydlu strwythur cadarn i'r gwasanaeth.

Adroddwyd bod un cais wedi ei dderbyn

Ystyriwyd bod y cais yn ymateb i ofynion y swydd a'r cymwyseddau allweddol.

Cynigiwyd ac eiliwyd rhoi yr un ymgeisydd ar y rhestr fer.

**PENDERFYNWYD:**

**RHOI UN YMGEISYDD AR Y RHESTR FER AR GYFER SWYDD PENNAETH ADRAN PLANT A CHEFNOGI TEULUOEDD (DROS DRO)**

Dechreuodd y cyfarfod am 3.00 y.h. a daeth i ben am 3.20 y.h.

**CADEIRYDD**